**TRIBIWNLYS Y GYMRAEG**

**Achos Rhif: TyG/21/03**

CURON WYN DAVIES
(Apelydd)
v.
COMISIYNYDD Y GYMRAEG
(Atebydd)

PENDERFYNIAD APÊL

## PENDERFYNIAD Y TRIBIWNLYS

Mae'r Ymgeisydd wedi gwneud cais am adolygiad o benderfyniad y Tribiwnlys dyddiedig 24 Awst 2022 yn y mater hwn o dan reol 48 yn Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg 2015 (Y Rheolau).

Mae'r ymgeisydd wedi rhoi rhesymau pam ei fod yn teimlo bod y cais yn deilwng mewn e-bost dyddiedig 21 Medi 2022.

Mae'r Tribiwnlys yn gwrthod y cais am adolygiad am nad oes gwall amlwg a phwysig yn y penderfyniad.

Rhesymau:
1. Mae'r Ymgeisydd yn cyflwyno'r materion canlynol pam ei fod yn teimlo bod gwall pwysig: -
• Mae'r Tribiwnlys wedi penderfynu bod natur y digwyddiad yn ddigwyddiad preifat pan oedd ei union natur yn ddigwyddiad cyhoeddus, ac ategwyd hyn gan ddiffiniadau yn y Ddeddf Hawliau Dynol a oedd yn cyfeirio at wasanaeth cyhoeddus gan awdurdod cyhoeddus.

**WELSH LANGUAGE TRIBUNAL**

**Case No: WLT/21/03**

CURON WYN DAVIES
(Appellant)
v.
WELSH LANGUAGE
COMMISSIONER
(Respondent)

APPEAL DECISION

## TRIBUNAL DECISION

The Applicant has applied for a review of the Tribunal's decision dated 24 August 2022 in this matter under rule 48 of the Welsh Language Tribunal Rules 2015 (The Rules).

The applicant has provided reasons why he feels the application is merited in an email dated 21 September 2022.

The Tribunal refuses the application for a review as there is no obvious and material error in the decision.

Reasons:
1. The Applicant puts forward the following issues why he feels there is a material error: -

- The Tribunal has determined that the na the event was a private event when its v nature was a public event, and this was supported by definitions in the Human F Act which referred to a public service b public authority.

• Bod penderfyniad y Tribiwnlys yn dibynnu ar y penderfyniad yn Performing Rights Society Ltd v Harlequin Record Shops Ltd [1979] 2 ac mae hyn yn ymdrin â phwynt gwahanol ac nid yw'n berthnasol. Os yw'n berthnasol, cyfeiriodd adran o'r achos hwnnw at y ffaith bod y fideo a ddarparwyd ar gyfer cynulleidfa gyhoeddus ac o ganlyniad roedd y digwyddiad ar gyfer y cyhoedd. Bod y cynadleddau i'r wasg yn y mater hwn yn cael eu gwylio gan y cyhoedd, eu bod ar y teledu a'r gynulleidfa yn gyhoeddus.
• Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus eraill y mae'r Safonau yn berthnasol iddynt gydymffurfio â Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960. Dylid ystyried y ffaith fod hyn wedi'i amrywio gan Gyfarfodydd Awdurdodau Lleol (Coronafeirws)(Cymru) 2020 gan Weinidogion Cymru, ac er y nad yw'n uniongyrchol berthnasol, i'r graddau ei fod yn nodi'r hyn a ganiateir i alluogi cyfarfodydd i aros yn agored i'r cyhoedd yn ystod y pandemig.
• Mae penderfyniad y Tribiwnlys yn groes i Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Mae Erthygl 14 (darllenwyd gydag Erthygl 8) yn amddiffyn pobl rhag gwahaniaethu ar sail iaith. Mae'r Mesur yn darparu'r Safonau sy'n rhan o'r Hawliau Dynol hynny. Mae adran 33 o'r Mesur yn datgan bod angen cydymffurfio â safonau penodol os yw Atodlen 5 a 6 yn gymwys i sefydliad. Mae Atodiad 5 yn nodi mai awdurdod cyhoeddus yw pob awdurdod cyhoeddus o fewn ystyr Awdurdod Cyhoeddus yn adran 6 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998.
• Bod darparu Iaith Arwyddion Prydain (BSL) o'r Saesneg ond nid gan y siaradwyr Cymraeg yn gwahaniaethu ar sail iaith yn groes i Erthygl 14 y Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

- That the decision of the Tribunal relies on the decision in Performing Rights Society Ltd v Harlequin Record Shops Ltd [1979] 2 and this deals with a different point and is not relevant. If it is relevant a section of that case referred to the fact the video provided was for a public audience and consequently the event was for the public. That the press conferences in this matter were watched by the public, they were on television and the audience was the public.
- Other public bodies to which the Standards are relevant have to comply with a Public Bodies (Admission to Meetings ) Act 1960. That this was varied by the Local Authority (Coronavirus)(Meetings) (Wales) 2020 by the Welsh Ministers, and whilst not directly relevant should be considered in so far as it noted what was allowed to enable meetings to remain open to the public during the pandemic.
- The Tribunals decision is contrary to the Human Rights Act 1998. Article 14 (read with Article 8) protects people from discrimination relating to language. The Measure provides the Standards which are part of those Human Rights. Section 33 of the Measure states that there is a need to comply with certain standards if Schedule 5 and 6 applies to an organisation. Annex 5 notes that a public authority is every public authority within the meaning of Public Authority in section 6 of the Human Rights Act 1998.
- That by providing British Sign Language (BSL)from English but not from the Welsh speakers this discriminated based on language contrary to Article 14 of the HRA 1998.

2. Clywodd y Tribiwnlys sylwadau gan y ddwy ochr yn y gwrandawiad ar 28 Gorffennaf 2022. Rôl y Tribiwnlys mewn apêl o dan adran 99(2) o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Y Mesur) yw ystyried y mater o'r newydd, ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, a gwneud ei benderfyniad ei hun ynghylch a oedd penderfyniad yr Ymatebydd yn gywir. Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ar ddechrau'r gwrandawiad fod yr Apêl yn ymwneud â Safon 36 o Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (Y Safonau) ac nad oedd yn apelio mewn perthynas â Safon 33.

2. The Tribunal heard representations form both sides at the hearing on 28 July 2022.The Tribunal's role in an appeal under section 99(2) of the Welsh Language (Wales) Measure 2011 (The Measure) is to consider the matter anew, based on evidence submitted, and to make its own decision as to whether the Respondent's determination was correct. The Applicant confirmed at the start of the hearing that the Appeal was in relation to Standard 36 of the Welsh Language Standards (No 1) Regulations 2015 (The Standards) and he was not appealing in relation to Standard 33.

3. Mae'n rhaid i unrhyw Gais o dan reol 48 y Rheolau ddangos bod gwall amlwg a phwysig yn y penderfyniad i lwyddo.

3. Any Application under rule 48 of the Rules must show there is an obvious and material error in the decision to succeed.

4. Y mater yn yr achos hwn yw a ellid ystyried y cynadleddau i'r wasg dan sylw fel "digwyddiadau cyhoeddus" o dan Safon 36 y Safonau. Gwnaeth y ddwy ochr sylwadau a chyfeirio at awdurdodau achos gwahanol yn ymwneud â diffiniadau o ddigwyddiadau cyhoeddus a digwyddiadau sy'n agored i'r cyhoedd. Mae'n rhaid i Gomisiynydd y Gymraeg a'r Tribiwnlys gymryd y Mesur a'r Safonau i ystyriaeth yn bennaf wrth ystyried y materion a'r diffiniadau yn y mater hwn. Er y gall nodi'r casgliadau a'r rhesymu a ddarparwyd mewn achosion eraill nad ydynt yn gysylltiedig er mwyn llywio ei farn, mae'n rhaid mai'r Mesur a'r Safonau yw'r man cychwyn.

4. The issue in this case is whether the press conferences concerned could be considered as "public events" under Standard 36 of the Standards. Both parties made representations and referred to different case authorities relating to definitions of public events and events open to the public. The Welsh Language Commissioner and the Tribunal must take account primarily of the Measure and the Standards in considering the issues and definitions in this matter. Whilst it can take note of conclusions and reasoning provided in other unrelated cases to inform its judgement the starting point must be the Measure and the Standards.

5. Y Mesur, y Safonau a'r Cod Ymarfer a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yw'r dogfennau o bwys a'r canllawiau diffiniol ar gyfer y sefydliadau sy'n ddarostyngedig i'r Safonau.

5. The Measure, the Standards and the Code of Practice issued by the Welsh Language Commissioner are the documents of importance and the defining guidance for the organisations who are subject to the Standards.

6. Roedd penderfyniad y Tribiwnlys yn yr achos hwn yn ystyried y sylwadau a wnaed gan y ddau barti yn y gwrandawiad. Gwnaeth yr Ymgeisydd sylwadau cryf i ddatgan, er gwaethaf y ffaith y gallai'r rhai a oedd yn bresennol fod wedi'u cyfyngu i'r wasg, bod holl natur y digwyddiad yn gyhoeddus. Bu llawer o bobl yn tiwnio i mewn i'r digwyddiadau trwy amrywiol ddulliau ac roedd ei ddadl yn datgan ei fod yn gyhoeddus ei natur ac y dylid ei ystyried yn ddigwyddiad cyhoeddus at ddibenion Safon 36.

7. Mae'r Tribiwnlys yn nodi yn ei benderfyniad a'i sail resymegol rhwng paragraffau 49 a 62. Mae wedi dadansoddi'r gwahanol ddadleuon ac wedi ystyried y Mesur, y Safonau perthnasol, a'r Cod Ymarfer. Mae'r rhesymeg yn gwahaniaethu cymeriad y gynulleidfa fel ffactor perthnasol. Mae hwn yn gyfeiriad at achos Performing Rights Society Ltd v Harlequin Record Shops Ltd [1979] 2 AER 828 ond nid dyma'r unig awdurdod a ddefnyddir. Ystyriodd y Tribiwnlys y brif ddeddfwriaeth, sef y Mesur, y Safonau a'r Cod Ymarfer wrth ddod i'w gasgliad. Roedd yn ystyried y gwahaniaeth rhwng digwyddiad cyhoeddus lle gallai cynulleidfa gymryd rhan ac un lle gallai newyddiadurwyr yn unig fod yn bresennol ac eraill yn arsylwi. Nid oes dim i ddiffinio'r sefyllfa yn benodol yn y Mesur, y Safonau na'r Cod Ymarfer. Nid oes dim yn y Mesur, y Safonau na'r Cod Ymarfer sy'n gwrth-ddweud yn uniongyrchol y penderfyniad a wnaed gan y Tribiwnlys.

6. The Tribunals decision in this case considered the representations made by both parties at the hearing. The Applicant made strong representations to state that irrespective of the fact those attending may have been limited or restricted to the press, the whole nature of the event was public. Many people tuned into the events by various means and his argument stated that it was public in nature and should be considered as a public event for the purposes of Standard 36.

7. The Tribunal sets out in its decision and rationale between paragraphs 49 and 62. It has analysed the different arguments and considered the Measure, the relevant Standards, and the Code of Practice. The rationale distinguishes the character of the audience as a relevant factor. This is a reference to the case of Performing Rights Society Ltd v Harlequin Record Shops Ltd [1979] 2 AER 828 but it is not the sole authority used. The Tribunal considered the main legislation namely the Measure, the Standards and the Code of Practice in arriving at its conclusion. It considered the difference between a public event where an audience could participate and one where only journalists could attend and others observe. There is nothing to define the situation specifically in the Measure, the Standards nor the Code of Practice. There is nothing in the Measure, the Standards nor the Code of Practice that directly contradicts the decision taken by the Tribunal.

8. Mae'r rhesymeg a ddarparwyd gan y Tribiwnlys yn ystyried y sylwadau amrywiol ac mae wedi dod i gasgliad sy'n gwahaniaethu rhwng digwyddiadau sy'n caniatáu presenoldeb cyhoeddus a'r rhai nad ydynt yn gwneud hynny. Gwnaeth y Tribiwnlys hefyd wahaniaethu rhwng cyfarfodydd lle nad yw'r cyhoedd yn bresennol ond yn gallu gweld y digwyddiad ac na allant gymryd rhan a'r rhai y gall y cyhoedd eu gweld trwy dechnoleg a chymryd rhan. Daeth y Tribiwnlys i'r casgliad bod lle y gallai'r cyhoedd weld ond peidio â rhyngweithio neu gyfranogi yn berthnasol wrth benderfynu a oedd y cyfarfod yn ddigwyddiad cyhoeddus. Er y byddai'r Apelydd yn anghytuno â'r casgliad ac wedi ceisio rhoi diffiniadau gerbron y Tribiwnlys sy'n anghytuno â'r casgliad hwn, nid oes dim yn y rhesymeg a gyflwynwyd gan y Tribiwnlys y gellid ei ddisgrifio fel gwall amlwg a pherthnasol. Maent wedi ystyried y deunydd perthnasol ac wedi dod i gasgliad. Mae'r gwahaniaeth rhwng y cyhoedd yn gallu rhyngweithio a chyfranogi ai peidio yn ffactor pwysig a all wahanu digwyddiadau cyhoeddus a phreifat.

9. Mae'r Apelydd yn codi'r mater bod y penderfyniad yn groes i Erthyglau 8 a 14 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Mae Erthygl 8 yn ymdrin â'r Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol ac Erthygl 14 y Gwahardd gwahaniaethu. Ni chodwyd yr un o'r materion hyn yn y gwrandawiad. Nid yw hynny'n golygu na allant fod yn berthnasol i'r dadansoddiad o'r penderfyniad o dan reol 48 o'r Rheolau. Roedd y penderfyniad y bu'n rhaid i'r Tribiwnlys ymdrin ag ef yn ymwneud â thriniaeth y Gymraeg yn unol â'r Mesur. Roedd cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod ac nid oedd wedi'i wahardd ac o'r herwydd nid yw'n weithred o wahaniaethu o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 i gynnal

8. The rationale provided by the Tribunal considers the various representations and it has arrived at a conclusion that distinguishes events that allow public presence from those that do not. The Tribunal also distinguished meetings where the public is not present but able to view the event and cannot participate from those where the public can view through technology and participate. The Tribunal concluded that where the public could view but not interact or participate was relevant in deciding if the meeting was a public event. Whilst the Appellant would disagree with the conclusion and has sought to put definitions before the Tribunal that disagree with this conclusion there is nothing in the reasoning presented by the Tribunal that could be described as an obvious and material error. They have considered the relevant material and arrived at a conclusion. The distinction between the public being able to interact and participate or not is an important factor which can separate public and private events.

9. The Appellant raises the issue that the decision is contrary to Articles 8 and 14 of the Human Rights Act 1998. Article 8 deals with the Right to respect for private and family life and Article 14 the Prohibition of discrimination. Neither of these issues was raised in the hearing. That does not mean they cannot be relevant to the analysis of the decision under rule 48 of the Rules. The decision the Tribunal had to deal with was in relation to the treatment of the Welsh Language in accordance with the Measure. There was an opportunity for Welsh to be used in the meeting and it was not prohibited and consequently it is not an act of discrimination under the

y cyfarfod yn y modd y'i cynhaliwyd. Nid yw penderfyniad y Tribiwnlys ar y mater hwn felly yn groes i'r Erthyglau a grybwyllwyd.

**Iwan Jenkins**
**Llywydd Tribiwnlys y Gymraeg**
**15.11.22**

Human Rights Act 1998 to conduct the meeting in the way it was. The Tribunals decision in this matter is not therefore contrary to the Articles mentioned.

**Iwan Jenkins**
**President of the Welsh Language Tribunal**
**15.11.22**